# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Woodcroft**

**Cartref Gofal Woodcroft**
**Abergele Road**
**Tredelerch**
**Caerdydd**
**CF3 1RS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05 a 06 Ebrill 2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Woodcroft

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 60 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw] |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn hoffi byw yn Woodcroft, maent yn fodlon ar eu gofal ac yn gwerthfawrogi'r cymorth y maent yn ei gael gan weithwyr gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r bobl sy'n gallu gwneud hynny yn cael eu cynnwys wrth bennu nodau ac adolygu'r nodau hyn fel rhan o gynlluniau personol, ac mae gan eraill eiriolwyr i'w helpu yn hyn o beth. Caiff y bobl eu hannog i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd. Mae trefniadau monitro iechyd ar waith a darperir cymorth iechyd. Caiff gweithwyr iechyd proffesiynol eu cynnwys pan fo angen. Mae'r gweithgareddau a drefnir yn cynnig cyfleoedd i'r bobl fod yn egnïol, i gymryd rhan mewn pethau sy'n bwysig iddynt, ac yn rhoi amser iddynt gymdeithasu ag eraill.

Mae'r amgylchedd wedi cael ei wella ac mae'r décor wedi cael ei adnewyddu ym mhob rhan o'r adeilad. Cafodd lloriau newydd eu gosod a phrynwyd dodrefn newydd mewn rhai rhannau. Caiff yr amgylchedd ei wirio fel rhan o archwiliadau parhaus, a chaiff cyfarpar ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n briodol. Mae'r bobl yn mwynhau'r ardd, y balconïau a'r ardaloedd cymunedol sy'n cynnig digon o le iddynt gerdded o gwmpas dan do.

Mae trefniadau llywodraethu ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol, gyda chymorth gan dîm ehangach y sefydliad, wedi gweithio gyda rheolwr y gwasanaeth i sicrhau'r gwelliannau a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf. Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel ac maent yn cael hyfforddiant arbenigol i wella eu hymwybyddiaeth o anghenion y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio'n briodol a chaiff eu cymwyseddau eu profi er mwyn gwneud yn siwr bod safonau gofal uchel yn cael eu cyrraedd. Rhoddir pwyslais penodol ar brosesau rhoi meddyginiaeth.

## Llesiant

Caiff lleisiau'r bobl eu clywed. Mae'r gwasanaeth yn ymgynghori â'r bobl, neu eu cynrychiolydd, am eu hanghenion cyn iddynt fyw yn y cartref er mwyn sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion, ac eithrio ar adegau prin pan gaiff unigolyn ei dderbyn fel achos brys. Mae'r bobl neu eu cynrychiolwyr yn cyfrannu at y broses o ysgrifennu'r cynllun personol ac yn cymryd rhan yn y broses o adolygu'r cynllun yn rheolaidd. Mae'r cynlluniau personol yn nodi nodau yr hoffai'r bobl eu cyflawni. Mae'r bobl sy'n ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau gan nad oes ganddynt y gallu i gofio gwybodaeth yn cael cymorth gan eiriolwr. Pan fydd gan bobl anawsterau cyfathrebu llafar, mae'r gweithwyr gofal yn eu hadnabod yn dda ac yn gallu helpu i ddeall eu hanghenion drwy iaith y corff ac ystumiau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgynghori â'r bobl er mwyn cael gwybod eu barn am ansawdd y gofal, ac mae'r bobl yn cyfrannu at benderfyniadau am fywyd o ddydd i ddydd yn y cartref drwy gyfarfodydd rheolaidd i breswylwyr. Rhoddir gwybodaeth i'r bobl am sut i godi materion, ac maent yn nodi y byddent yn gwybod gyda phwy y dylid codi pryderon pe byddai angen.

Mae'r darparwr yn ystyried anghenion y bobl ac yn eu helpu i aros mor iach ac actif â phosibl. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu hanghenion iechyd corfforol a meddyliol. Cedwir cofnodion er mwyn helpu i nodi a oes angen cymorth ychwanegol ar unrhyw un, er enghraifft, i gynnal eu pwysau, a gweithredir ar hyn. Mae prydau bwyd yn cael eu gwneud yn y cartref ac yn cynnig dewis er mwyn annog deiet iach. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol fel ciropodyddion a deietegyddion ar gael i'r bobl. Cynhelir adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau'r bobl, yn enwedig y rhai sy'n cael cymorth â'u hiechyd meddwl. Cynigir amrywiaeth eang o weithgareddau, y mae llawer ohonynt wedi'u personoli i'r unigolyn, i'w helpu i gadw mor weithgar yn gorfforol ac yn feddyliol â phosibl. Mae'r bobl yn cael cymorth gyda'u hylendid a'u hymddangosiad personol os oes angen cymorth o'r fath arnynt er mwyn iddynt deimlo'n gadarnhaol amdanynt eu hunain.

Mae'r bobl yn cael eu cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth bosibl. Mae trefniadau llywodraethu ar waith, sy'n cynnig trosolwg o'r gwasanaeth a ffordd o'i fonitro er mwyn profi ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r adeilad yn ddiogel ac mae mesurau diogelwch ar waith fel system teledu cylch cyfyng (CCTV). Mae rhannau o'r cartref dan glo er mwyn helpu i amddiffyn y bobl. Mae amserlenni ar gyfer cynnal a chadw a glanhau'r amgylchedd, a chaiff y trefniadau eu harchwilio. Dilynir gweithdrefnau rheoli heintiau. Mae cynhyrchion glanhau, meddyginiaethau ac eitemau eraill a allai achosi niwed yn cael eu cadw'n ddiogel y tu ôl i ddrysau wedi'u cloi. Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel ac maent yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Mae digon o staff hyfforddedig ac mae polisïau a gweithdrefnau cadarn iddynt eu dilyn.

## Gofal a Chymorth

Ymgynghorir â'r bobl am eu gofal. Fel rhan o'r broses o gael eu derbyn i'r cartref, caiff y bobl neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys wrth roi cymaint o wybodaeth â phosibl fel y gall y gwasanaeth helpu i ddiwallu eu hanghenion. Caiff cynlluniau personol eu datblygu. Mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo i drosglwyddo gwybodaeth i fformat newydd sy'n amlygu'r nodau sy'n bwysig i'r bobl. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws ystyried a gafodd y nodau eu cyflawni, ac a oes angen addasu'r cynlluniau gofal i adlewyrchu hyn. Mae angen gwneud rhagor o waith i atgyfnerthu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cynlluniau personol, er enghraifft drwy gofnodi pa mor aml y mae angen cymorth ar rywun, ond nid oes unrhyw effaith ar y bobl ar hyn o bryd. Ymgynghorir â'r bobl o ddydd i ddydd am eu hanghenion gofal. Gwelsom y gweithwyr gofal yn cynnig dewis ac yn darparu ysgogiadau priodol i'r bobl sy'n ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau. Mae'r bobl yn dewis beth yr hoffent ei wneud a ble yr hoffent fod.

Mae'r darparwr wedi gwella safon y gofal a'r cymorth. Mae'r bobl yn cael cymorth â'u hanghenion gofal mewn modd amserol, caiff eu hiechyd ei fonitro, a chânt eu hatgyfeirio at weithwyr iechyd proffesiynol priodol os oes angen. Dywedodd un o'r gweithwyr iechyd proffesiynol wrthym fod y gwasanaeth yn dda o ran gwneud atgyfeiriadau, er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth cywir. Mae trefniadau mwy cyson ar waith ar gyfer cofnodi gwybodaeth er mwyn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch iechyd y bobl, gan gynnwys manylion maeth a lefelau hylif ar gyfer y rhai y mae angen y wybodaeth hon ar eu cyfer. Mae gwell hyfforddiant ymwybyddiaeth a chyfathrebu yn sicrhau bod pob adran, gan gynnwys y tîm arlwyo, yn ymwybodol o anghenion deietegol y bobl, a chaiff bwydydd â nifer uchel o galorïau eu darparu os oes angen. Mae amseroedd bwyd yn bleserus, yn gymdeithasol ac yn hamddenol, ac mae digon o staff i roi anogaeth a chymorth. Mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth mewn modd amserol. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal y maent yn ei gael gan ddweud, "*Nothing is too much trouble*," "*I can't fault them*" a bod y gofal yn "*Brilliant*." Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y bobl yn cael cymorth â'u hymddangosiad personol, a bod sylw i fanylion megis cymorth eillio yn cael ei roi, ac mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael cymorth gyda gofal personol priodol. Dywedodd un o'r bobl wrthym fod y gofal a gafodd y bore hwnnw yn "*Perfect*" a bod y gweithiwr asiantaeth yn dangos "*Great respect*."

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd i'r bobl gynnal eu llesiant cyffredinol. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn canolbwyntio ar y maes hwn ac mae wedi gwneud gwelliannau. Mae rhaglen lawn o weithgareddau ar gael. Gwelsom y bobl yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan yn y gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnig, gan gael cymorth i symud i wahanol rannau o'r cartref os oedd angen. Caiff teuluoedd ac ymwelwyr eraill eu hannog i ymweld â'r cartref. Mae rhai gweithgareddau wedi'u personoli'n unol â diddordebau'r

unigolion, a gwelsom sut y cafodd y bobl a fynegodd hoffter o adar gymorth i ymweld â gwarchodfa adar gwlyptiroedd Casnewydd. Gwelsom ffotograffydd portreadau a fydd yn cyflwyno ei waith ar ffurf ‘papur newydd’, gan ddathlu bywydau'r bobl sy’n byw yn y cartref.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn hyrwyddo llesiant. Mae décor y cartref wedi cael ei adnewyddu drwyddi draw ac mae'r gwaith o osod lloriau newydd a phrynu rhywfaint o ddodrefn newydd wedi'i gwblhau. Mae’r cartref yn ymddangos yn oleuach ac yn fwy croesawgar o ganlyniad, a dywedodd un gweithiwr gofal wrthym fod y gwaith wedi bod o fudd i lesiant pawb. Mae ardaloedd diogel yn y cartref yn cynnig lle i'r bobl symud yn ddirwystr rhwng eu hystafell wely a'r ardaloedd byw cymunedol. Mae'r ystafelloedd gwely wedi’u personoli. Mae lifft teithwyr yn helpu'r bobl i symud rhwng lloriau. Mae'r bobl yn mwynhau'r ardd, ac yn cael cymorth i fynd allan i'r ardal honno os byddant am wneud hynny. Mae ceginau ym mhob ardal gymunedol yn cynnig dewis i'r bobl baratoi eu diod eu hunain neu gael eu byrbrydau eu hunain os gallant wneud hynny. Mae mynedfa'r cartref ar ffurf ardal eistedd groesawgar tebyg i gaffi lle gall y bobl a'u teuluoedd wneud diod a mwynhau'r teisennau cartref sydd ar gael. Mae tafarn y cartref hefyd yn cael ei defnyddio’n helaeth gan deuluoedd.

Caiff trefniadau rheoli heintiau eu hystyried. Mae'r trefniadau ar gyfer glanhau'r cartref yn rheolaidd wedi gwella a defnyddiwyd aelodau ychwanegol o staff asiantaeth i helpu'r tîm domestig arferol. Mae'r cartref yn lân. Roedd arogl drwg yn un rhan o'r cartref, ond ymdriniwyd â'r mater ar unwaith gan y rheolwr drwy lanhau cadair yn un o'r ystafelloedd cawod yr oedd angen ei glanhau'n fwy trylwyr. Mae amserlenni glanhau ar waith, gan gynnwys trefniadau ar gyfer glanhau tapiau a phennau'r cawodydd. Mae'r rheolwr yn ystyried glendid yr amgylchedd wrth gerdded o amgylch yr adeilad bob dydd, yn ychwanegol at yr archwiliadau rheolaidd. Mae digon o gyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob rhan o'r cartref, gan gynnwys menig a ffedogau, ac mae hylif diheintio dwylo ar gael i ymwelwyr sy'n dod i mewn i'r adeilad pan fyddant yn cofrestru. Mae digon o finiau â chaead arnynt ar gael ym mhob rhan o'r cartref, er nad yw rhai ohonynt yn cael eu gweithredu â phedalau, fel sy'n ofynnol.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i fonitro a chynnal yr amgylchedd. Mae gweithiwr cynnal a chadw yn helpu i ymgymryd â phrofion a gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn unol â'i alluoedd. Defnyddir contractwyr allanol i brofi a chynnal gwasanaethau fel systemau nwy, systemau trydan a systemau canfod tân. Mae'r holl staff rheolaidd yn ymwybodol o'r gofyniad i gadw drysau cypyrddau ar glo. Daethom o hyd i un cwpwrdd nad oedd wedi'i gloi, sef cwpwrdd yr oedd un o aelodau asiantaeth y tîm domestig yn ei ddefnyddio i gael gafael ar ddeunyddiau glanhau; atgoffwyd yr aelod hwnnw o staff ei bod hi'n bwysig cadw'r amgylchedd yn ddiogel. Mae'r rheolwr a swyddogion ehangach y sefydliad yn archwilio diogelwch yr amgylchedd. Mae'r adran Iechyd yr Amgylchedd yn archwilio'r gegin a dyfarnwyd sgôr uchaf yr Asiantaeth Safonau Bwyd iddi er mwyn dangos ei bod yn bodloni'r gofynion.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr wedi gwneud gwelliannau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r Cyfarwyddwr Gofal wedi ymdrin â materion ar ôl i welliannau gofynnol gael eu nodi yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae rheolwr profiadol wedi dychwelyd yn dilyn cyfnod o absenoldeb. Dywedodd wrthym fod y darparwr yn gefnogol, gan ei alluogi i weithio gyda thîm rheoli ehangach i ymdrin â'r materion a nodwyd. Mae’r dulliau o fonitro’r gwasanaeth wedi newid fel y gall cyfarwyddwyr y sefydliad nodi materion yn gyflym, a rhoi cymorth ar waith i sicrhau na fydd y materion hynny yn gwaethygu. Gwnaed cynnydd digonol i sicrhau cydymffurfiaeth ym mhob maes.

Mae systemau ar waith i oruchwylio ansawdd y gofal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyflawni ei rôl â diwydrwydd dyladwy, gan ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac ymgynghori â'r bobl neu eu cynrychiolwyr fel rhan o'r broses hon. Mae cynllun datblygu, a gynhelir gan y rheolwr, yn dangos y cynnydd a wnaed gyda thasgau a gaiff eu nodi drwy ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol, arolygiadau neu archwiliadau sefydliadol. Mae'r polisïau, gweithdrefnau a dogfennau eraill fel y ‘datganiad o ddiben’ yn cael eu hadolygu a’u diweddaru’n rheolaidd, gan ddarparu gwybodaeth i'r bobl a'r staff er mwyn iddynt wybod beth y mae’r gwasanaeth yn ei gynnig a sut y dylid rhoi gofal.

Mae'r lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn briodol ac yn cael eu hadolygu'n barhaus. Gwnaed gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff gofal ei roi'n briodol ac mewn modd amserol. Caiff y staff eu symud i wahanol rannau o'r cartref os bydd achos o salwch ar fyr rybudd, neu os bydd aelod o staff yn absennol ac na ellir trefnu staff asiantaeth. Caiff y staff eu recriwtio mewn ffordd ddiogel. Pan fydd angen gweithwyr asiantaeth, mae'r cartref yn gofyn am gysondeb o ran y gweithwyr gofal ac yn sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu'n gadarn, er mwyn iddynt ddeall prosesau'r cartref yn glir. Mae cyfarfodydd i'r holl staff a chyfarfodydd goruchwylio â rheolwyr llinell yn cynnig cyfleoedd i'r gweithwyr gofal rannu eu harsylwadau ac i ystyried eu datblygiad proffesiynol. Caiff y gweithwyr gofal eu hannog a'u cefnogi i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant sy'n addas i'w rôl. Bu'r ffocws dros yr ychydig fisoedd diwethaf ar hyfforddiant i ddiwallu anghenion y bobl, gan gynnwys ‘Dementia’ a ‘Diabetes.’ Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol wrthym ei fod yn bwriadu darparu hyfforddiant ar atal achosion o ddirywiad y croen i'r gwasanaeth. Darparwyd hyfforddiant arall hefyd, gan gynnwys hyfforddiant gloywi ‘Cymorth Cyntaf’ a ‘Rhoi Meddyginiaeth.’ Mae trefniadau mwy cadarn ar gyfer archwilio meddyginiaeth wedi nodi amheuon o ran cymwyseddau rhai o'r staff. Mae'r rheolwr yn gweithredu i ymdrin â hyn. Er bod y rhan fwyaf o'r staff yn gweithredu mewn ffordd barchus, mae'r rheolwr yn ystyried enghreifftiau unigol o ymddwyn mewn ffordd or-gyfarwydd y gellid ystyried ei bod yn croesi ffiniau proffesiynol ac

mae'n ymdrin â'r enghreifftiau hyn. Dywedodd y bobl a oedd yn gallu mynegi eu barn wrthym fod y staff yn "*Nice*," "*Pleasant*," neu "*Lovely.*"

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth priodol mewn modd amserol i hybu eu hiechyd a'u llesiant, a'u hamddiffyn rhag niwed. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod y gwaith o gofnodi meddyginiaeth yn cael ei gwblhau yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol. | Cyflawnwyd |
| 44 | Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod y safle yn ddiogel rhag peryglon a all effeithio ar iechyd a llesiant unigolion, ac nid yw'r adeilad yn cael ei gynnal yn briodol a'i gadw'n lân i safon sy'n briodol. | Cyflawnwyd |
| 8 | Nid yw'r darparwr wedi rhoi systemau monitro, adolygu a gwella effeithiol ar waith | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r darparwr yn rhoi sicrwydd bod y staff yn cael sesiynau sefydlu a hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth ddigonol i ddiwallu anghenion y bobl maent yn gofalu amdanynt bob amser. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/06/2023